



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYNLLUN CEFNOGAETH PONTIO

Arolwg	Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad yr Arolwg
1.				
2.				
3.				
Swyddog Polisi	Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad	
Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Grŵp Tasg Adnoddau Dynol 7fed o Fehefin 2022	1af o Chwefror 2022	

Rhagarweiniad

Bwriad y cynllun hwn yw galluogi cyflogi, mewn rhai amgylchiadau a lle bo cyllid yn caniatáu, staff ymchwil a chymorth ymchwil (gan gynnwys gweinyddwyr, technegwyr ac ati), rhwng contractau tymor penodol yn y Brifysgol, nad oes unrhyw ffynhonnell arall o gyllid ar gael iddynt, er mwyn:

- (a) annog cadw staff profiadol a medrus a chynnal timau ymchwil ac arbenigedd;
- (b) osgoi toriad mewn cyflogaeth a gyrfa y byddai'r aelodau yma o'r staff yn eu hwynebu o bosibl;
- (c) cynyddu'r cyfle i staff o'r fath gynhyrchu allbynnau o ansawdd uchel a/neu effaith ymchwil ar ddiwedd contractau cyfnod penodol a ariennir.

Ni fwriedir i'r cynllun ddod yn lle egwyddorion a gweithdrefnau'r Polisi Contract Tymor Penodol ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau parhad cyflogaeth i'w staff lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl ac i ddefnyddio a/neu adnewyddu contractau cyfnod penodol dim ond pan fo cyfiawnhad gwrthrychol dros wneud hynny. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi cytundeb Concordat 2019 y DU i wella cyflogaeth a chymorth i ymchwilwyr.

Mae'r cynllun ar gael i staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Brifysgol ar gontract cyflogaeth yn unig (gweler y meini prawf cymhwysedd isod).

Nid oes cyllid canolog ar gael drwy'r cynllun hwn, ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig (cyflogau, offer, nwyddau traul, ac ati), sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r ysgol dan sylw. Disgwylir y bydd cyllid yn y cyfnod pontio yn cael ei reoli o fewn cyllideb bresennol yr ysgol, gyda chynghor gan reolwr cyllid y coleg os oes angen.

Cymhwysedd

Mae'r meini prawf cymhwysedd canlynol yn sail i'r dyraniad pontio o dan y cynllun hwn:

- a) Mae'r cynllun ar gael i staff a gyflogir ar gontract tymor penodol a ariennir yn allanol gan Brifysgol Bangor yn unig (mae staff ar gontractau rhan amser fesul awr neu gontract achlysurol wedi'u heithrio). Mae hyn yn cynnwys aelodau o staff a all fod ar absenoldeb sy'n ymwneud â theulu (e.e. mamolaeth, rhiant a rennir, ac ati) neu absenoldeb arall a gymeradwyir yn yr un modd.
- b) Rhaid i ddefnydd y cynllun pontio gefnogi Strategaeth Prifysgol Bangor a chynlluniau ymchwil, a rhaid cael cynllun gwaith clir a manwl i'r aelod staff ei gyflawni yn ystod y cyfnod pontio.
- c) Rhaid i'r cyfnod pontio gyfrannu at ddatblygiad gyrfa'r aelod o staff, yn unol â'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr lle bo'n berthnasol.
- d) Rhaid i'r aelod o staff ddangos perfformiad boddhaol ym mhob agwedd arall ar ei rôl.
- e) Bydd ceisiadau ond yn cael eu hystyried pan fydd un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni ar adeg y cais:
 - i. Sicrhawyd cyllid allanol digonol i gyflogi'r aelod o staff ar gontract pellach, fodd bynnag, mae bwlch anorfod rhwng y cyllid (hyd at dri mis fel arfer, ond gellir ystyried hyd at chwe mis).

- ii. Enwir yr aelod o staff ar gais a gyflwynwyd am arian ymchwil ac mae penderfyniad yn yr arfaeth a disgwylir canlyniad cyn diwedd y cyfnod pontio.
- f) Rhaid i geisiadau am gymorth pontio sicrhau bod amodau a thelerau cyflogaeth presennol yr aelod o staff yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod pontio pan fydd y rhain yn aros heb eu newid ar ôl cwblhau cadarnhad cyllid yn llwyddiannus. Lle bydd unrhyw delerau'n cael eu diwygio, a bod hyn yn hysbys ar yr adeg pan fydd cymorth pontio yn cael ei ystyried (e.e. os bydd angen lleihau oriau fel rhan o'r contract nesaf a gyhoeddir ar ôl penderfynu ar y cyllid), yna dylid cyfathrebu'r rhain i unigolion a'u gweithredu o ddiwrnod cyntaf y gefnogaeth pontio sy'n digwydd.
- g) Fel arfer byddai disgwyl cais am gymorth pontio rhwng tri a chwe mis cyn i gontract cyfnod penodol cyfredol ddod i ben, yn benodol lle mae estyniad i'r contract presennol wedi'i archwilio eisoes (ac nad yw'n bosibl). Byddai'n ganlyniad fel arfer i flaengynllunio prosiectau ymchwil y tîm ymchwil a/neu fel adolygiad o'r opsiynau a gynhaliwyd fel rhan o'r Polisi Contractau Cyfnod Penodol.

Rheolau'r Cynllun

- a) Rhaid bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau grant newydd ar gyfer cyllid pellach mewn da bryd cyn i'r contract presennol ddod i ben a ffynonellau cymorth perthnasol eraill wedi cael eu chwilio'n llawn ac yn foddhaol.
- b) Dylid bod wedi gwneud pob ymdrech (a lle bo'n briodol parhau i wneud) i sicrhau gan y corff cyllido allanol bod dyfarniad newydd yn dechrau'n gynnar, er mwyn lleihau'r cyfnod rhwng contractau a'r cyfnod o amser y ceisir cymorth pontio ar ei gyfer.
- c) Rhaid i Gyfarwyddwr Ymchwil yr ysgol, Pennaeth yr Ysgol a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil y Coleg gefnogi'r cais am gymorth pontio a darparu asesiad o'r manteision a fyddai'n dod i'r adran a'r unigolyn dan sylw.
- d) Rhaid cytuno ar raglen waith foddhaol, gan gynnwys manylion am y canlyniadau allweddol (e.e. gweithgareddau effaith, cyflwyno cyhoeddiadau neu geisiadau grant) gyda Phennaeth yr Ysgol (neu ei enwebai, h.y., Prif Ymchwilydd ar y grant) ar gyfer y cyfnod cyflogaeth y ceisir cymorth pontio ar ei gyfer, a rhaid darparu manylion wrth wneud cais am gymorth pontio.
- e) Os, o fewn y cyfnod pontio, y caiff y cais i gorff cyllido allanol (y cyfeirir ato yn y meini prawf cymhwysedd) ei wrthod, bydd cymorth pontio yn parhau er hynny am weddill y cyfnod pontio y cytunwyd arno.
- f) Mae ceisiadau yn amodol ar argaeledd cyllid a sicrhau estyniad i gymhwysedd i weithio yn y DU os oes angen.
- g) Hyd yn oed os gwneir cais, bydd yn ofynnol o hyd i'r Brifysgol barhau i ddilyn y broses diwedd contract cyfnod penodol (yn unol â'r Polisi Contract Cyfnod Penodol), i sicrhau bod cymorth priodol a rhybudd cytundebol yn cael eu rhoi i'r aelod o staff.
- h) Gwneir penderfyniadau cymeradwyo yn ôl disgrisiwn Cyfarwyddwr Ymchwil yr ysgol, Pennaeth yr Ysgol a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil y Coleg, gyda mewnbwn gan y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi yn ôl yr angen. Nid oes hawl i apelio.
- i) Ni ddylai ceisiadau llwyddiannus gael eu prosesu tan, ar y mwyaf, 3 mis cyn diwedd y contract presennol (y mae'r cynllun pontio hwn yn cael ei ddefnyddio i'w ddisodli) er mwyn

cynyddu'r tebygolrwydd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol ac argaeledd grant.

- j) Gellir cyflwyno ceisiadau hyd at a chan gynnwys dyddiad diwedd y contract cyfredol. Fodd bynnag, os nad yw'r cais wedi'i gymeradwyo, bydd y contract yn dod i ben a bydd y tâl yn stopio. Os caiff y cais ei gymeradwyo yn ddiweddarach, bydd tâl yn cael ei adfer o ddyddiad cymeradwyo'r cais a bydd gwasanaeth parhaus yn cael ei anrhydeddu.
- k) Gellir dileu'r Cynllun sy'n gwbl ddewisol ar unrhyw adeg, heb rybudd, yn ôl disgrisiwn y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi.

Trefn Ymgeisio

Rhaid i bob cais am gymorth pontio gael ei wneud ar ran yr aelod staff a enwir gan y Prif Ymchwilydd, gan ddefnyddio Ffurflen Gais safonol y Cynllun Pontio.

Dylai ceisiadau gynnwys ffurflen gais wedi'i chwblhau yn manylu ar y canlynol:

- a) crynodeb manwl gywir o'r costau cyflog y gofynnir amdanynt, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gynyddran flynyddol sy'n ddyledus a chan gynnwys argostau llawn (Yswiriant Gwladol a phensiwn)
- b) disgrifiad byr o sut mae'r cyfnod pontio yn cefnogi Strategaeth Prifysgol Bangor a chynlluniau ymchwil
- c) disgrifiad byr o'r dyletswyddau sydd i'w cyflawni yn ystod y cyfnod y gofynnir am gymorth pontio ar ei gyfer a syniad clir o'r hyn y gellir ei gyflawni
- d) manylion unrhyw gymorth pontio blaenorol a dderbyniwyd gan yr aelod o staff (neu ddatganiad na dderbyniwyd unrhyw gymorth blaenorol)
- e) gwybodaeth am yr ymdrechion a wnaed i sicrhau grant newydd, ac i drefnu i unrhyw ddyfarniad newydd ddechrau'n gynnar
- f) mewn sefyllfaoedd lle gwneir y cais a lle nad oes cyllid pellach wedi'i sicrhau eto, dylai'r ffurflen gais gynnwys curriculum vitae cyfoes ar gyfer yr aelod o staff, gan gynnwys rhestr o gyhoeddiadau;

Dylid anfon y ffurflen wedi'i chwblhau yn electronig at Gyfarwyddwr Ymchwil yr ysgol a fydd yn cymeradwyo neu'n gwrthod y cais ar sail angen strategol i'r ymchwil barhau. Os caiff ei gymeradwyo, dylai'r cais gael ei drosglwyddo i Bennaeth yr Ysgol. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn cadarnhau a oes cyllid ar gael ac yn ei drosglwyddo i Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil y Coleg i'w gymeradwyo'n derfynol. Os yw coleg yn dymuno gwneud y cymeradwyaethau hyn ochr yn ochr yn hytrach nag yn olynol, gallant wneud hynny.

Bydd y Brifysgol yn parhau i ddilyn y Polisi Contract Cyfnod Penodol.

Bydd Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil y Coleg yn hysbysu'r Ysgol ac Adnoddau Dynol am y penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag ymestyn y contract cyfnod penodol gan ddefnyddio'r cynllun pontio. Bydd Adnoddau Dynol yn cyhoeddi'r dogfennau cytundebol priodol. Pan nad yw ceisiadau i'r cynllun yn llwyddiannus, a phan mae'r aelod o staff wedi'i roi ei hun ar y gofrestr adleoli, bydd camau'n cael eu cymryd i barhau i geisio adleoli staff o'r fath a/neu roi'r gweithdrefnau diswyddo a rhybuddio priodol ar waith, yn unol â'r Polisi Contract Tymor Sefydlog.

Dylai pob cam cymeradwyo gael ei gwblhau fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith, felly dylai ceisiadau gael eu hystyried yn llawn o fewn 30 diwrnod gwaith.

Mae'r Prif Ymchwilydd yn gyfrifol am hysbysu'r aelod o staff trwy gydol y broses.

Pan fo cyflogaeth unigolyn gyda PB yn amodol ar nawdd gan Fisa'r DU a'r Gwasanaeth Mewnfudo, nid yw caniatâd parhaus i weithio a byw yn y DU wedi'i warantu a byddai angen ceisio cyngor o dan y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau mewnfudo bryd hynny. Dylid ystyried effaith ariannol unigolyn sy'n gwneud cais am fisa tymor byr i lenwi'r bwlch pontio ac yna cais arall am fisa ar gyfer y contract canlynol. Dylid hefyd ystyried amseroedd prosesu ceisiadau am fisa a chais ATAS cysylltiedig o bosibl. Gellir cael gwybodaeth bellach gan Adnoddau Dynol.

Trefniadau ariannol

Nid oes cyllid canolog ar gael ar gyfer cymorth pontio. Mater i ysgolion felly yw ystyried pa gyllid a allai fod ar gael yn lleol a sefydlu proses briodol ar gyfer ystyried ceisiadau am gyllid yn deg yn seiliedig ar angen strategol i'r ymchwil barhau ochr yn ochr â galwadau eraill ar adnoddau ysgol. Disgwylir y bydd cyllid yn cael ei reoli o fewn cyllideb bresennol yr ysgol, gyda chynghor gan reolwr cyllid y coleg os oes angen.

Os ceir cyllid gan gorff allanol o fewn y cyfnod a gwmpesir gan gymorth pontio, bydd y cymorth pontio yn dod i ben cyn gynted ag y bydd y cyllid allanol yn dechrau. Pan fo corff cyllido allanol yn cytuno i ddarparu cyllid ôl-weithredol i gefnogi staff ymchwil am gyfnod a gwmpesir gan gymorth pontio, yna rhaid ad-dalu'r arian a ddefnyddir ar gyfer cymorth pontio yn unol â hynny.

Gwybodaeth Pellach

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y polisi hwn drwy gysylltu â'r Rheolwr Athena Swan a'r Concordat Ymchwil, neu'r Swyddog Adnoddau Dynol dynodedig ar gyfer yr ardal dan sylw, y gellir dod o hyd i'r manylion ar [dudalennau gwe AD](#).

Adolygu'r Cynllun

Dylid adolygu gweithrediad y cynllun yn flynyddol yng ngoleuni profiad a bydd bob amser yn cael ei ddarllen a'i gymhwyso yn ddarostyngedig i'r gyfraith gyffredinol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bu'r polisi hwn yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn seiliedig ar ymgynghoriad a'r wybodaeth a oedd ar gael ar adeg datblygu'r polisi. Cynhelir Asesiad pellach o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cyd ag unrhyw adolygiad o'r polisi.

Atodiad 1: Siart llif y broses

